

Estyn Llaw

Bwletin Newyddion 4

News Bulletin 4

Gwirfoddoli – blwyddyn fawr

Mae 2007 yn flwyddyn bwysig i'r Gymraeg yn y sector gwirfoddol.

Mae dwy strategaeth fawr yn dangos beth sy'n bosib ei wneud ac yn cynnig cymorth i'w gyflawni.

- Eisoes mae Datblygu Cymunedol Cymru wedi cyhoeddi dogfen bolisi yn pwysleisio'r angen am roi lle amlwg i'r Gymraeg wrth ddatblygu cymunedau.

- Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y broses o orffen Strategaeth i'r Sector Gwirfoddol a rhaglen weithredu fanwl.

Mae 2007 yn flwyddyn bwysig i Estyn Llaw hefyd - mae Cwmni Iaith, sy'n rheoli'r cynllun, wedi agor swyddfeydd newydd yn Llanelwy yn y Gogledd-ddwyrain.

Mae hynny'n golygu y bydd staff Estyn Llaw yn gallu defnyddio holl adnoddau'r swyddfa newydd.

Felly, mae'r holl wasanaethau ar gael yn gyfleus i Gymru gyfan - o helpu i lunio Cynllun Iaith i gyrsiau hyfforddi ac o gymorth gyda recriwtio siaradwyr Cymraeg i greu deunyddiau dwyieithog.

"Mae'r galw am ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu o fewn y sector gwirfoddol," meddai Swyddog Datblygu Estyn Llaw, Morys Gruffydd.

"Mae'r strategaethau newydd gan Datblygu Cymunedol Cymru a Bwrdd yr Iaith yn pwysleisio'r union fath o wasanaeth yr 'yn ni'n ei gynnig."

Cwmni'n ganolfan genedlaethol

Gyda Chwmni Iaith y tu cefn i'r prosiect, mae Estyn Llaw yn gallu galw ar arbenigedd mewn sawl maes - o gyfieithu i gynllunio iaith, o gyrsiau i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg i brofiad cynllun Twf sy'n gweithio gyda theuluoedd ifanc.

"Mae'r cwmni yn y broses o ddatblygu yn Ganolfan Gynllunio Iaith i Gymru gyfan," meddai Morys Gruffydd. "Bydd hynny'n golygu fod mwy o gryfder fyth y tu cefn i Estyn Llaw."



Volunteering – a vital year

For the voluntary sector in Wales, 2007 is an important year:

Two new national strategies show what is possible and provide help with achieving it.

- Already Community Development Cymru have published a policy document stressing the need to give Welsh a prominent place in community development work.

- The Welsh Language Board is finalising a Strategy for the Voluntary Sector and a detailed action plan.

For Estyn Llaw too, 2007 is a vital year – Cwmni Iaith (the language company) which manages the project has opened new offices in St. Asaph in

North-east Wales. Estyn Llaw staff can use the new offices and their resources as a base.

It means that the full range of services is easily accessible for the whole of Wales – from helping to create a Language Plan to training courses and from advice on recruiting Welsh speakers to creating bilingual materials.

"The demand for using Welsh within the voluntary sector is growing," said Estyn Llaw's Development Officer, Morys Gruffydd.

"The new strategies from Community Development Cymru and the Welsh Language Board emphasise the exact kind of service that we offer."

Iaith becomes national centre

With Cwmni Iaith behind the project, Estyn Llaw can call on expertise in several fields – from translating to language planning, from awareness-raising courses about the language to the Twf programme which works with young families.

"The company is in the process of transforming itself into a Language Planning Centre for the whole of Wales," says Morys. "That will further strengthen the project's work."

Estyn Llaw

Uned 3, Parc Busnes Aberarad,
Castell Newydd Emlyn, SA38 9DB

0800 9177 969 / 01239 711668

morys.gruffydd@cwmni-iaith.com / elin.mair@cwmni-iaith.com

www.estynllaw.org



EWYBODAETH
CYMRU A'R WELSH
LANGUAGE BOARD

Yr anifeiliaid yn siarad Cymraeg

Pobl leol yn cefnogi wrth i Ymddiriedolaeth ddechrau defnyddio'r iaith

Mae'r dyfrgi a glas y dorlan yn siarad Cymraeg yng ngorllewin Cymru erbyn hyn – diolch i Estyn Llaw.

Nhw sydd wedi helpu Ymddiriedolaeth Natur De a Gorrlewin Cymru i benodi swyddog newydd sy'n creu deunydd dwyieithog i ddenu ymwelwyr i'r gwarchodfeydd.

Llinos Richards yw'r unig un o'u 25 o staff sy'n gallu siarad Cymraeg a, chyn iddi hi ddod yn Rheolwr Dehongli, ychydig iawn o Gymraeg oedd ar daflenni a phosteri'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r ymateb i'r newid wedi bod yn galonogol iawn, meddai, a'r gobaith yw y bydd defnyddio'r Gymraeg yn ennyn mwy o gefnogaeth gan bobl leol.

"Mae amryw o Gymry lleol wedi dod ata' i i ganmol y gwaith gan ddweud

eu bod wedi bod yn siomedig iawn yn y gorffennol wrth ganfod cyn lleied o Gymraeg oedd ar ein deunydd marchnata," meddai Llinos, a oedd cyn hynny yn warden cynorthwyol ar Ynys Sgogwm yn Sir Benfro.

Mae ei phrif waith yn cynnwys creu deunydd yng Nghanolfan yr Ymddiriedolaeth yng Nghilgerran a marchnata gwarchodfeydd eraill ar draws De Cymru.

"Dw'n meddwl fod pobl leol yn teimlo'n fwy o ran o bethau ers i ni gyflwyno mwy o Gymraeg," meddai. "Megis dechrau ydw i – ond mae'r her yn un sydd werth ei dilyn".



shown their support for the changes, she says.

"A lot of local people have come up to me to praise the work, saying how disappointed they had been in the past in seeing so little Welsh in our marketing materials.

Her main responsibilities include marketing the Trust's HQ at Cilgerran and a series of nature reserves across South Wales.

"I think that many local people feel more a part of things since we introduced more Welsh," says Llinos, who was an assistant warden on Skokholm Island in Pembrokeshire. "This is only the start – but the challenge is worthwhile."

Sut yr helpodd Estyn Llaw

Cyn penodi Llinos Richards, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gosod her i Estyn Llaw.

"Roedden nhw wedi dechrau llunio cynllun iaith ac yn awyddus i benodi person dwyieithog i'r swydd Rheolwr Dehongli er mwyn cael mwy o bethau yn ddwyieithog," meddai Elin Griffiths, Swyddog Maes Estyn Llaw.

Bu Estyn Llaw a Menter Iaith Sir Benfro yn eu helpu nhw gyda'r hysbysebu a'r recriwtio a, gan nad oedd neb o'r Ymddiriedolaeth Natur yn siarad Cymraeg, cafodd Rhian Owens o'r Fenter iaith wahoddiad i'r cyfweiliad.

Mae Estyn Llaw yn gallu helpu wrth greu disgrifiad swydd ac yn cynghori lle i hysbysebu a sut orau i recriwtio.

How Estyn Llaw helped

South and West Wales Wildlife Trust had issued Estyn Llaw with a challenge.

"They had started putting together a Language Plan and were keen to appoint a bilingual person to fill the post of Interpretation Manager, in order to create more bilingual materials," explains Elin Griffiths, Estyn Llaw's Field Officer.

Estyn Llaw and the Pembrokeshire language initiative, Menter Iaith Sir Benfro, helped them with the advertising and recruitment work and, as no-one from the Trust could speak Welsh, Rhian Owens from the Menter sat in on the interview.

Estyn Llaw can help organisations with creating job descriptions, for instance, and with advice on how and where to place adverts and with the recruitment itself. This can often be part of more general work on creating a language plan.

Cadw'r gymuned, cadw'r iaith

Gwneud yr iaith yn rhan o'r broses o gynnal a datblygu cymunedau cefn gwlad – dyna oedd nod cynhadledd undydd ei chynnal ym Mhlasdy Rhos-y-gilwen, ger Cilgerran.

O dan adain Menter Iaith Sir Benfro, gydag Estyn Llaw yn trefnu, daeth arbenigwyr ar amrywiol agweddau o gynnal cymunedau gwledig Cymraeg ynghyd i drafod.

Roedd Rhian Owens o'r Fenter yn credu bod "Plethu Ein Dyfodol" yn codi syniadau newydd am y ffordd orau i gynnal cymunedau gwledig heb wanhau'r Gymraeg.

Roedd y diwrnod yn gyfle

i swyddogion cynlluniau ac ymgynghorwyr gyfnewid syniadau a rhannu profiadau, gyda'r nod o ddylanwadu ar lunwyr polisiâu'r dyfodol.

"Mae'n hanfodol bod y Gymraeg yn rhan allweddol o bob datblygiad economaidd a chymunedol os yw hi i ffynnu yn ein hardaloedd gwledig," meddai Rhian Owens.

Roedd y gynhadledd hefyd yn tanlinellu un o egwyddorion sylfaenol Estyn Llaw – y dylai'r iaith gael ei lle ynghanol bwrwlwm gweithgaredd cymunedol.



Gwneud pethau'n haws i'r mudiadau

Mae Estyn Llaw yn gallu helpu mudiadau gwirfoddol gyda rhai o'r pethau sy'n codi ofn ar lawer ohonyn nhw wrth feddwl am weithio'n ddwyieithog.

Yn aml pethau syml ydyn nhw, ond maen nhw'n anodd i bobl heb brofiad a dyna pam fod y Swyddog Maes, Elin Mair Griffiths, ar gael i helpu.

Mae hi eisoes wedi rhoi cyngor a chymorth ymarferol i lawer iawn o fudiadau i ddechrau ar y daith at

ddefnyddio mwy o Gymraeg.

Gyda siop Barnardo yn Aberteifi, er enghraifft, fe helpodd swyddogion i lunio erthygl fechan i'w rhoi yn y papur bro lleol yn gwahodd rhagor o wirfoddolwyr Cymraeg.

"Er bod nifer o siaradwyr Cymraeg yno eisoes, roedd y rheolwyr yn ymwybodol fod pobl leol yn gwerthfawrogi gwasanaeth Cymraeg," meddai Elin.

Making things easy for the sector

Estyn Llaw can help voluntary organisations with some of the challenges that make them nervous when thinking

of bilingual working.

They may be simple matters, but are daunting for people who have no experience in the field. That's why Field Officer, Elin Mair Griffiths, is on hand.

She has already offered advice and practical help to a range of organisations, supporting them as they aim at using more Welsh.

With the Barnardo's shop

Welsh for communities

An important conference has been held aimed at making the Welsh language a central part of efforts to support rural communities.

Held at Rhos-y-gilwen Mansion near Cilgerran and organised by Estyn Llaw and the Pembrokeshire Language Initiative, Menter Iaith Sir Benfro, it gathered together experts on various aspects of supporting rural Welsh language communities.

Rhian Owen from the

Menter thinks that "Plethu ein Dyfodol" – Weaving our Future – has raised new ideas about supporting rural communities without weakening the language.

The one-day conference was an opportunity for project officers and consultants to share ideas and experiences, with the aim of influencing policy makers for the future.

"It is vital that the Welsh language is a key part of economic and community development, if it is to flourish in our rural areas," said Rhian.

The conference also underlined one of the founding principles of Estyn Llaw – that Welsh should be given a prominent place in community life.

Talk (Welsh) with the animals

Local people show their support as Trust starts using the language

Otters and kingfishers are now able to communicate through the medium of Welsh in south and west Wales – thanks to Estyn Llaw.

They helped South and West Wales Wildlife Trust to appoint a new officer who is busy creating bilingual literature to bring in more visitors to their nature reserves.

Llinos Richards is the only Welsh speaker amongst the Trust's staff of 25 and, before she joined as Interpretation Manager, there was very little Welsh on the organisation's publicity material.

Now, all that is changing as Llinos and first indications suggest that the Trust will gain from her work. Many people have

Dewis iaith - neges strategaeth newydd

Mae angen i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gwirfoddol gael dewis gwneud hynny yn eu hiaith eu hunain. Nid Estyn Llaw yn unig sy'n dweud hynny ond Llywodraeth y Cynulliad a'r corff datblygu, Datblygu Cymunedol Cymru.

Maen nhw wedi cyhoeddi

Fframwaith Strategol Genedlaethol ar gyfer datblygu cymunedol yng Ngymru ac mae hwnnw'n pwysleisio'r angen i gydnabod fod Cymru'n wlad ddwyieithog.

Mae'r sylw i'r Gymraeg yn bwysig iawn, meddai Morys Gruffydd, pennaeth Estyn Llaw, oherwydd mai dyma'r ddogfen gyntaf i grynhoi egwyddorion ac arferion da datblygu cymunedol ar gyfer Cymru.

Er mwyn cael pobl i gymryd rhan, mae'r strategaeth yn dweud ei bod yn bwysig cael defnyddio'r iaith fwya'

cyfforddus iddyn nhw tra bydd gweithio uniaith yn cael effaith negyddol.

Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebyg o weithio gyda mudiadau sydd â delwedd ddwyieithog, yn ôl Einir Roberts o Datblygu Cymunedol Cymru, ac mae iaith yn gallu newid y berthynas rhwng mudiad a phobl.

"Os ydyn ni eisiau sicrhau bod trigolion o fewn cymunedau yng Nghymru yn teimlo perchnogaeth o unrhyw waith cymunedol, mae'n hanfodol bod iaith a diwylliant y fenter yn eu cynnwys ac nid yn eu cau allan."

Cynllun grêt i siarad Cymraeg

Sylwi bod llawer o bobl yn gallu siarad Cymraeg ond yn dewis peidio – dyna sut y ganwyd y prosiect "Mae dy Gymraeg di'n Grêt" sy'n mynd o nerth i nerth yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd.

Y nod yw gwneud i bobl deimlo'n fwy hyderus i siarad Cymraeg ac fe ddechreuodd y cyfan trwy waith Linda Evans gyda'r rhaglen Twf, sy'n annog rhieni i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Trwy hynny, bydd Linda Evans yn gweld rhieni'n gyson ac fe sylwodd fod llawer o'r mamau yn siarad Cymraeg

yn iawn gyda hi ond yn siarad Saesneg fel arall.

"Roedd rhai mamau yn siarad Cymraeg gyda'u plant ac eto ddim da'i gilydd. Pan o'n ni'n holi beth oedd y rheswm am hyn, 'smo fy Nghymraeg i'n ddigon da' oedd yr ateb bob tro," meddai Linda.

Felly, gyda chefnogaeth Bwrdd yr Iaith a chymorth Estyn Llaw, aeth ati i lunio'r prosiect newydd i annog



pobl i fynd amdani. Mae Estyn Llaw a Twf ill dau yn cael eu rhedeg gan Gwmni Iaith o Gastellnewydd Emlyn.

"Nid gwersi oedd eu hangen," meddai Linda, "dim ond y cyfle i godi hyder ac i dorri ar hen arferiad o siarad Saesneg."

Fe gasglodd griwiau bach ynghyd ac am gyfnod byr pob wythnos, roedden nhw'n dod at ei gilydd i wneud pob math o weithgareddau hwyliot a'r

A great project for speaking Welsh

Linda Evans noticed that many young women she dealt with could speak Welsh but were too shy to do so – that's how a new project was born in Carmarthenshire, called "Mae dy Gymraeg di'n Grêt"

– Your Welsh is Great.

The aim is to make people feel more confident about speaking Welsh and it arose out of Linda's work with Twf, the project that encourages parents to use Welsh with their little children.

Linda would regularly see young parents and noticed that many of the mums would speak Welsh with her but would otherwise use English.

"Some of the mothers would speak Welsh with their children but not with each other. When I asked them why, the answer every time was, 'My Welsh isn't good enough,'" says Linda.

So, with support from the Welsh Language Board and help from Estyn Llaw, she created the new project to urge the mothers to give Welsh a go. Estyn Llaw and Twf are both projects run by Cwmni Iaith from Newcastle Emlyn.

"It wasn't a question of offering language lessons," says Linda. "What was needed was an opportunity to raise confidence and to break the habit of speaking in English."

Offer a choice - the message from new strategy

People who use voluntary services should be able to do so in the language of their choice.

Estyn Llaw are not the only people to say this – the Welsh Assembly Government and the development body, Community Development Cymru, are putting out the same message.

They have published a National Strategic Framework for community development in Wales and this stresses the need to acknowledge that Wales is a bilingual country.

The references to the Welsh language are very important, says Morys Gruffydd, head of Estyn Llaw, because this is the first document to lay down principles and good practice in community development work in Wales.

In order to encourage people to participate, the strategy underlines how important it is to allow them to use their

language of choice while working in one language only would have a negative effect.

Welsh speakers are more likely to volunteer with organisations that have a bilingual image, says Einir Roberts from Community Development Cymru, and language can change the relationship between an organisation and people.

"If we want to ensure that people in communities in Wales feel ownership of community work, it is vital that the project's language and culture include them and don't shut them out."

unig reol oedd fod rhaid siarad Cymraeg

Fe flodeuodd grwpiau o hyd at 15 o rieni ym Mhenygroes, Garnant, Cydweli, Brynaman, San Clêr, Hendygywyn ar Daf, Llandeilo a Llanyddyfri.

"Y peth braf yw fod rhai o'r grwpiau yn dala i gwrrd er mwyn cymdeithasu. Erbyn hyn, Cymraeg yw iaith sgwrsio llawer o'r rhai ddaeth i'r sesiynau."

Criw'n cael blas ar ddysgu

Mae criw o bobl yn ardal Tregaron eisiau mynd ati o ddifri i ddysgu Cymraeg ar ôl cymryd rhan mewn sesiynau blasu arbennig.

Estyn Llaw oedd wedi trefnu'r pecynnau iaith ar eu cyfer ar ran Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf ac roedden nhw'n llwyddiant mawr.

"Roedd y sesiynau yn wych ac yn ddefnyddiol iawn," meddai Lisa Zanoni

o Llanddewi Brefi, un o'r dysgwyr newydd. Ac nid hi yw'r unig un yn y pentre' chwaith.

Roedd y sesiynau blasu yn cael eu cynnal yn neuadd Llanddewi a daeth tua 12 ynghyd – rhai newydd symud i mewn i'r ardal ac eraill eisoes wedi dysgu ychydig o Gymraeg ar gysiau eraill.

Cafwyd 9 awr o wersi mewn sesiynau awr a hanner dros gyfnod o 6 wythnos ym misoedd Mai a Mehefin.

"Weithiau, mae pobl yn awyddus i ddysgu'r iaith ond braidd yn swil o roi cynnig

arni," meddai Elin Griffiths o Estyn Llaw.

"Roedd yr ymateb yn wych," meddai Sarah Richards o Cymunedau'n Gyntaf Tregaron. "Pan aeth y Bartneriaeth ati i ffurfio Fforwm ym mhentre Llanddewi Brefi, daeth yn amlwg fod eitha' tipyn yn ddi-Gymraeg yno.

"Roedd yno frwdfrydedd dros yr iaith ond roedd rhai yn gweld y daith i wersi mewn trefi fel Llanbed neu Aberystwyth yn bell ac yn awyddus i gael gwersi yn y pentref ei hun. Mae rhai'n awr yn awyddus i gario mlaen i ddysgu mwy."

Local group gets a taste for Welsh

A series of taster sessions has inspired a group of people from the Tregaron area to start learning Welsh.

Estyn Llaw organised language packs for them on behalf of the Communities First Support Network. They were an outstanding success.

"The sessions were great and very useful," said Lisa Zanoni from Llanddewi Brefi,

one of the new language learners. And she's not the only one in the village.

The taster sessions were held in Llanddewi village hall and about 12 joined in – some were recent incomers; others had already started learning a little Welsh on other courses. A total of nine hours' teaching was spread over six ninety-minute sessions in May and June.

"Sometimes, people are keen to learn the language but are a bit nervous of giving it a go," said Elin Griffiths from Estyn Llaw.

"The response was tremendous," said Sarah Richards from Tregaron Communities First. "When the Partnership set up a Forum in Llanddewi, it became obvious that many people were non-Welsh speaking.

"There was a lot of enthusiasm for the language but some felt that courses at Aberystwyth and Lampeter were too far away and were keen to have lessons in the village. Now many of them want to carry on and learn more."



I'r Urdd i weld y bwrlwm

Bu plant ac oedolion o bob cwr o Gymru yn heidio i stonidn y mudiadau gwirfoddol ar faes Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerfyrddin – yr ŵyl ieuenticid fwyaf o'i bath yn Ewrop.

Roedd Estyn Llaw wedi bod yn rhan o'r trefniadau gyda CAVS, cymdeithas wasanaethau gwirfoddol Sir Gaerfyrddin, yr Amblwans Awyr, mudiad gwirfoddol y menywod y WRVS a SNAP Cymru.

Mae'r prosiect yn awyddus iawn i weld rhagor o fudiadau gwirfoddol yn mynd i ddigwyddiadau o'r fath – er mwyn dod i gysylltiad â rhagor o siaradwyr Cymraeg ac er mwyn sylweddoli cymaint o fwrlwm o waith gwirfoddol sy'n digwydd

trwy gyfwrng yr iaith.

Mae'r Eisteddfod ei hun yn golygu blynyddoedd o waith i bwyllgorau o wirfoddolwyr ac yn binacl ar gystadlu sy'n cynnwys cymaint â 40,000 o blant a phobl ifanc.

"Mae'n bwysig ein bod ni'n mynd i bob math o ddigwyddiadau cyhoeddus er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am ein gwaith," meddai Helen Bussell o SNAP Cymru, mudiad sy'n cefnogi plant a theuluoedd gydag anghenion addysg arbennig.

"Rydym wastad yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr Cymraeg."



Making mark at festival

When Europe's largest travelling youth festival came to Carmarthen, Estyn Llaw helped local organisations to come together to make their mark.

Children and adults from all over Wales visited the stand organised for CAVS – Carmarthenshire Association for Voluntary Services – the Air Ambulance, the women's voluntary service the WRVS and SNAP Cymru.

Estyn Llaw is keen to see more voluntary organisations attending such events – to get in touch with Welsh speakers and become aware of the massive amount of voluntary

work taking place through the medium of the language.

The Urdd Eisteddfod itself is the culmination of years of work by voluntary local committees and is the pinnacle of achievement in competitions involving as many as 40,000 children and young people.

"It's important that we attend all kinds of public events in order to raise awareness of our work," said Helen Bussell from SNAP Cymru, which advises on the education rights of children with special needs.

"We are always looking for more Welsh-speaking volunteers."

Gwahaniaeth mawr – ar y ffordd

Mae Estyn Llaw yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddogfen newydd bwysig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Fe fydd hi'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r sector gwirfoddol.

Fe fydd honno'n tanlinellu pa mor bwysig yw'r mudiadau gwirfoddol i fywydau pobl Cymru ac yn pwysleisio fod rhoi dewis iaith i bobl yn ychwanegu at werth gwasanaethau.

Ar ôl misoedd o ymgynghori, mae'r Bwrdd yn paratoui at gyhoeddi fersiwn terfynol o Strategaeth Gymraeg ar gyfer y 30,000 o fudiadau sydd yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Bydd y ddogfen yn hyrwyddo'r un math o syniadau ag y mae Estyn Llaw eisoes wedi bod yn eu datblygu gyda mudiadau gwirfoddol. Roedd ymhlith y prif barnteriaid y bu'r

Big difference – on the way

Estyn Llaw is looking forward to a new document from the Welsh Language Board. It will make a massive difference to the voluntary sector.

It will underline how important voluntary bodies are to the lives of people in Wales and stress that giving people a choice of language gives services extra value.

After months of consultation, the Board is preparing to publish the final

version of a Welsh language Strategy for the 30,000 or so organisations in the voluntary sector in Wales.

The document will promote the kind of ideas that Estyn Llaw has already been promoting with voluntary bodies. The project was prominent in putting forward ideas and was amongst the leading partners to be consulted.

The Board has praised the

Bwrdd yn holi am eu syniadau ac yn ymgynghori â nhw.

Mae'r Bwrdd yn canmol y gwaith da y mae llawer o fudiadau eisoes wedi ei wneud, yn arbennig gyda deunyddiau a thafleuni dwyieithog.

"Blaenoriaeth y Bwrdd yn awr yw darparu'r gwasanaethau eu hunain yn Gymraeg," meddai'r Cadeirydd, Meri Huws. "Gyda swyddog sector gwirfoddol hefyd wedi ei benodi, rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'r mudiadau."

work already being done by many organisations, especially with bilingual materials and literature.

"The Board's priority now is to see the services themselves being offered in Welsh," said Language Board chair, Meri Huws. "As we've also appointed a voluntary sector officer, we are looking forward to working with voluntary bodies."

The document will create a

Bydd y ddogfen yn creu cynllun gweithredu manwl, gan osod grwpiau targed i ganolbwyntio arnyn nhw i ddechrau. Fe fydd y camau i'w cymryd yn cynnwys creu cynlluniau iaith, recriwtio rhagor o wirfoddolwyr Cymraeg, hyfforddi a datblygu staff a gwneud rhagor o weinyddu yn ddwyieithog.

"Mae Estyn Llaw yn gallu helpu gyda'r holl faterion hyn," meddai Morys Gruffydd. "Weithiau, mae'n anodd gwybod ble i ddechrau – os felly, cysylltwch â ni."

detailed plan of action, and will set out a list of target groups as a priority. The first steps can include creating Language Plans, recruiting more Welsh-speaking volunteers, training and developing staff and increasing bilingual administration.

"Estyn Llaw can help with all these issues," said Morys Gruffydd. "Sometimes it's hard to know where to start – if so, contact us"

Ymchwil i brofi'r angen

Fe fydd gwaith ymchwil dan adain Estyn Llaw yn dangos pa mor bwysig yw hi fod grwpiau gwirfoddol yn gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg.

Mae'r ymchwilydd a'r arbenigwr iaith, Cynog Prys o Brifysgol Cymru, Bangor, yn mynd i lygad y ffynnon drwy holi pobl sy'n dibynnu ar wasanaethau gwirfoddol.

"Mae llawer o'r rhain yn bobl fregus, boed nhw'n bobol hŷn, yn ifanc neu'n dioddef o salwch

o unrhyw fath," meddai. "Yn aml mae gan y grwpiau yma anghenion ieithyddol arbennig." Cwmni iaith – yr arbeingwyr cynllunio iaith a rheolwyr Estyn

Llaw – sy'n noddi'r ymchwil ond mae'n rhy gynnar eto i nodi unrhyw gasgliadau. Bydd Cynog Prys yn cynnal tua 40 o gyfweiliadau, gyda defnyddwyr yn bennaf, ond hefyd bydd yn cyfweilio gyda gwirfoddolwyr a staff mudiadau gwirfoddol.



Research into demand

A research project which is backed by Estyn Llaw will show how important it is that voluntary groups can offer services through the medium of Welsh.

Researcher and language expert, Cynog Prys, from the University of Wales, Bangor, will go directly to ask the views of people who depend on the voluntary sector.

"Many of these are vulnerable people," he says. "They can be older, very young or suffering

from an illness. Often these groups have special language needs."

The research project is sponsored by Cwmni iaith – the language planning company which runs Estyn Llaw – but it is too early yet to offer any conclusions.

Cynog Prys will conduct about 40 interviews, mainly with users, but also with some volunteers and staff working for voluntary bodies.

Dwy iaith yn fantais

Fe allai'r Gymraeg fod yn allwedd i rai mudiadau gwirfoddol gael rhagor o waith a chytundebau o'r sector cyhoeddus.

O dan Ddeddf Iaith 1993, os ydych chi'n darparu gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus, rhaid cadw at Gynllun Iaith y corff hwnnw.

Fe allai hynny olygu fod gweithredu dwyieithog yn

angenrheidiol ar gyfer pob math o gytundebau gydag awdurdodau lleol, asiantaethau ac adrannau Llywodraeth.

"Fe allai defnydd o'r iaith olygu'r gwahaniaeth rhwng cael a methu â chael cytundeb," meddai Morys Gruffydd, Swyddog Datblygu Estyn Llaw.

"Yn ogystal â bod yn well gwasanaeth i'r defnyddwyr, gall gwasanaeth dwyieithog fod yn well i'r mudiad neu'r elusen hefyd."

Dyna pam fod y mudiad

cartrefu, Tai Sylfaen, wedi gofyn am help Estyn Llaw i helpu gyda dechrau datblygu strategaeth ddwyieithog, gan gynnwys helpu eu huwch-swyddogion i ddeall y pwnc.

"Maen nhw eisiau cynnig dewis i'w cleientiaid ac maen nhw'n gweld y fantais fasnachol o weithredu'n ddwyieithog," meddai Morys Gruffydd. "Yn enwedig wrth ddelio gydag awdurdodau lleol sydd â Chynlluniau Iaith cryf."

Two languages – a benefit

Using Welsh could be crucial in helping some voluntary organisations win more work and contracts from the public sector.

Under the 1993 Welsh Language Act, anyone providing a service on behalf of a public body must adhere to that body's Language Plan.

That could make bilingual working a necessity for all kinds of contracts, with local authorities, agencies and Government departments.

"A Welsh language policy could make the difference between winning a contract or missing out," said Morys Gruffydd, Estyn Llaw's Development Officer.

"As well as offering a better service to users, working bilingually can be better for the organisation or charity too."

That's why housing charity, Foundation Housing, asked for Estyn Llaw's help in starting to develop a bilingual strategy including raising awareness amongst senior officers.

"They want to offer their clients a choice but the also see the commercial benefits of bilingual working," said Morys Gruffydd. "Especially when dealing with local authorities that have strong Language Plans."

